OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 918 (Cy. 206)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 9.20 a.m. ar 28 Awst 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 3.00 p.m. ar 28 Awst 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2020.

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(**3**) wedi eu diwygio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 10(1) (myfyrwyr cymwys – eithriadau), yn eithriad 10—

(a) ar ôl "nid yw'r eithriad hwn yn gymwys pan—" dechreuer llinell newydd a mewnosod y pennawd "*Achos 1*";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (c), yn lle'r atalnod llawn rhodder "; neu";

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(2)(a) gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 86. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Mae adran 22(2)(a) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru uchod i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2019/895 (Cy. 161). Mae diwygiadau i O.S. 2019/895 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(c) ar ddiwedd eithriad 10 mewnosoder—

*"Achos 2*

(a) bo diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2020; a

(b) na fo P yn gallu bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws."

(3) Yn Atodlen 1 (dehongli), ym mharagraff 3(1), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);".

(4) Yn Atodlen 4 (mynegai o dermau wedi eu diffinio), yn Nhabl 3, yn y lle priodol mewnosoder—

| | |
|---|---|
| ""coronafeirws" | Atodlen 1, paragraff 3(1)" |

*Kirsty Williams*

Am 9.20 a.m. ar 28 Awst 2020 — Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac maent yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae Rheoliadau 2019 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau gradd feistr ôl-raddedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2019.

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 10(1) o Reoliadau 2019 (myfyrwyr cymwys – eithriadau) i ddileu'r gofyniad i fyfyriwr sy'n ymgymryd â chwrs dysgu o bell fod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs hwnnw, mewn achosion pan fo'r absenoldeb yn ymwneud â'r coronafeirws.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.